**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 27 Mehefin 2023**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriad |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Gill German – Cysylltiad Personol – Eitemau 6 a 10 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Rhys Thomas – Cysylltiad Personol – Eitemau 6 a 10 ar y Rhaglen |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.* |
| **5** | Y CYNGOR YN GWEITHREDU FEL CORFF ARWEINIOL AR GYFER ADNEWYDDU CYTUNDEB GOFAL CARTREF RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo bod Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel Corff Arweiniol / Comisiynydd Arweiniol ar gyfer y Gwahoddiad i Dendro ar gyfer adnewyddu Cytundeb Gofal Cartref Rhanbarthol Gogledd Cymru, a chymeradwyo Adran Gaffael y Cyngor i arwain ymarfer y Gwahoddiad i Dendro i sicrhau bod y drefn briodol yn cael ei dilyn, a*<br><br>*(b) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) a'r Ffurflen Gomisiynu (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **6** | STRATEGAETH Y GYMRAEG 2023-28 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo Strategaeth newydd y Gymraeg sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad.* |
| **7** | HUNANASESIAD Y CYNGOR O'I BERFFORMIAD 2022 I 2023 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cadarnhau cynnwys Hunanasesiad y Cyngor o'i Berfformiad 2022-2023 i'w gyflwyno i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2023 i'w gymeradwyo.* |
| **8** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2023/24 a'r cynnydd yn ôl y strategaeth y cytunwyd arni;* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(b) cymeradwyo'r cynlluniau i ddarparu arian cyfatebol i gefnogi Cynllun Grant Cartrefi Gwag i ddod â defnydd yn ôl i eiddo gwag, fel y nodir yn Adran 6.9 ac Atodiad 5 yr adroddiad; a*<br><br>*(c) nodi'r defnydd o arian wrth gefn y rhaglen gyfalaf i ariannu'r gorwariant a ragwelir ar gynllun cyfalaf Depo'r Gerddi Botaneg (cam 1), fel y nodir yn Adran 6.10 yr adroddiad.* |
| **9** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.* |
| **10** | MARCHNAD Y FRENHINES – CAFFAEL GWEITHREDWR | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo dyfarnu Contract i'r cyflenwr a ffefrir i gynnal Marchnad y Frenhines yn seiliedig ar argymhellion y Bwrdd Prosiect a manylion yr Adroddiad Argymhelliad Dyfarnu Contract (Atodiad 1 yr adroddiad), a*<br><br>*(b) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **11** | ESTYNIAD I GONTRACTAU PROSIECT ATAL DIGARTREFEDD AMLDDISGYBLAETHOL ADULLAM, PROSIECT WALLICH GIFT A NO SECOND NIGHT OUT CLWYD ALYN (TŶ GOLAU) | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cytuno i ymestyn contractau Prosiect Atal Digartrefedd Amlddisgyblaethol Adullam a GIFT Wallich hyd at 31 Hydref 2024, a chytuno i ymestyn cytundeb cydweithredol sydd ar waith rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Chymdeithas Tai Clwyd Alyn 3 blynedd i 31 Hydref 2026 ar gyfer y prosiect No Second Night Out (Tŷ Golau), a*<br><br>*(b) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 27 Mehefin 2023**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|